

## Adroddiad y Cadeirydd

- 1.1 Cyfarfu ein Bwrdd ddiwethaf ar 15 Mai 2024 yn Llundain. Rwy'n edrych ymlaen yn fawr at ein cyfarfod Bwrdd yng Nghymru ar 17 Gorffennaf 2024. Mae angen i ni ganiatáu amser ar gyfer cyfieithu holl bapurau'r Bwrdd, felly rwy'n ysgrifennu'r adroddiad hwn yn gynharach nag arfer a byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am unrhyw weithgareddau ychwanegol yn y cyfarfod.
- 1.2 Mae Alan a minnau wedi parhau â'n rhaglen o gwrdd â chadeiryddion a phrif weithredwyr y rheoleiddwyr statudol, gan gyfarfod â'r GOsC ar 20 Mai 2024 a'r GMC ar 29 Mai 2024. Rwyf hefyd wedi cynnal trafodaethau gyda Christine Elliot o'r HCPC. Cyfarfu Alan a minnau hefyd â'r Farwnes Dianne Hayter ar 3 Mehefin 2024. Rhoddir diweddariadau pellach ar y cyfarfodydd hyn yn rhan rhanddeiliaid yr agenda. Sylwais hefyd ar adolygiad S29 ar 31 Mai 2024.
- 1.3 Ar 10 Gorffennaf 2024, mynychais y gweithdy Adnewyddu'r Brand ynghyd â thua 15 aelod o staff. Hwyluswyd y sesiwn yn dda ac roedd yn canolbwyntio ar hogi ein negeseuon craidd. Y camau nesaf yw troi hyn yn rhaglen waith.
- 1.4 Rwy'n parhau i gwrdd â staff gan gynnwys pob aelod newydd o staff, sy'n bleser. Rwyf hefyd wedi mynychu digwyddiadau y Fforwm Cadeiryddion Cyhoeddus (PCF) ac rwyf bellach wedi cwblhau sesiynau arweiniol ar gyfer yr olaf o dri diwrnod hyfforddi a drefnwyd gan y PCF ar gyfer cadeiryddion newydd.
- 1.5 Mae'r Pwyllgor Enwebiadau yn parhau i gynnal cyfarfodydd rheolaidd i sicrhau bod y pedair proses recriwtio sydd ar ddod (unigolyn i gymryd lle Nick ac Aelodau'r Bwrdd ar gyfer Gogledd Iwerddon a'r Alban ac ychydig yn ddiweddarach, Cymru) yr ydym wedi'u hamserlennu dros y 6 mis nesaf yn rhedeg yn esmwyth. Ar 21 Mehefin 2024, cyfarfu Marcus, Moi, Julie Dent (yr aelod panel annibynnol) a minnau i lunio rhestr fer o ymgeiswyr ar gyfer rôl flaenorol Nick. Cawsom dros 60 o geisiadau. Rydym wedi rhoi pum ymgeisydd o amrywiaeth o gefndiroedd ar y rhestr fer. Cynhelir y cyfweiliadau ar 5 Gorffennaf 2024.
- 1.6 Yng nghyfarfod diwethaf y Bwrdd buom yn trafod hyd tymhorau aelodau'r Bwrdd. Mae'r Pwyllgor Enwebiadau wedi cael trafodaeth bellach ac mae'n argymhell ein bod yn symud i dymhorau a chyfnodau adnewyddu o dair blynedd o nawr ymlaen. Gan dybio bod aelodau'r bwrdd yn gwasanaethu am ddau dymor llawn, byddai'n edrych fel isod. Dechreuodd 'cloc' Nick eto gyda phenodiad cadeirydd ARC ac mae ei lythyr penodi yn nodi tymor cychwynnol o bedair blynedd. Er mwyn sicrhau cysondeb, mae Nick wedi cytuno'n garedig y

dylai gael estyniad o ddwy flynedd ar ôl ei dymor cyntaf fel cadeirydd ARC. Byddai hyn hefyd yn lleihau clystyru yn 2031.

- |      |   |
|------|---|
| 2024 | Cyswllt ym mis Ebrill, Cadeirydd ARC ym mis Gorffennaf, aelod bwrdd newydd ym mis Medi  |
| 2025 | Aelodau Gogledd Iwerddon a'r Alban ym mis Ionawr. Ailbenodi'r Cadeirydd ym mis Mawrth. Aelod Cymru ym mis Mai. Penodi Is-Gadeirydd. |
| 2026 | Aelod cyswllt (yn lle Ruth) ym mis Ebrill   |
| 2027 | -   |
| 2028 | Cadeirydd newydd ym mis Chwefror, Cyswllt ym mis Ebrill   |
| 2029 | Aelod bwrdd newydd (yn lle Juliet) ym mis Rhagfyr   |
| 2030 | Cyswllt ym mis Ebrill, Cadeirydd newydd ARC (yn lle Nick) ym mis Gorffennaf   |
| 2031 | Aelodau NI a'r Alban yn Ionawr. Aelod Cymru ym mis Mai  |
| 2032 | Cyswllt ym mis Ebrill.  |
- 1.7 Byddaf yn cysylltu ag aelodau'r Bwrdd yn fuan ynglŷn â'r paneli ar gyfer y cyfweiliadau ar gyfer ymgyrchoedd NED yr Alban, Gogledd Iwerddon a Chymru. Byddaf ar bob un o'r paneli ynghyd â rhywun a enwebwyd gan bob un o'r DA priodol. Os bydd aelodau'r Bwrdd ar gael, credaf y byddai'n werth cael aelodau presennol y Bwrdd DA i fod ar banel cyfweld eu gwlad berthnasol. Mae hyn yn rhannol er mwyn lleihau costau/teithio ond hefyd i fanteisio ar rwydweithiau a gwybodaeth am faterion lleol. Bydd gennym hefyd aelod annibynnol ar bob panel.
- 1.8 Rwy'n cynnal cyfarfod bob chwe mis rheolaidd Bord Gron y Cadeiryddion ar 9 Gorffennaf 2024. Bydd y pynciau'n cynnwys: diweddariad gan bob Cadeirydd ar flaenoriaethau allweddol; yr hyn y gallai canlyniad yr etholiad ei olygu i reoleiddio proffesiynol; adolygiad arfaethedig y PSA o'r 18 Safon Rheoleiddio Da (diweddariad ddiwethaf ym mis Ionawr 2020); yr effaith bosibl ar reoleiddwyr yn sgil y newidiadau arfaethedig i Gyfansoddiad y GIG ar gyfer Lloegr (lle bydd cleifion yn cael eu grymuso i ofyn i ofal personol gael ei gyflawni gan rywun o'r un rhyw biolegol, lle bo hynny'n rhesymol bosibl) ac arfer gorau ar wybodaeth rhywedd ar gofrestrau; a'r hyd tymor gorau i'r Bwrdd/Cyngor.
- 1.9 Yn olaf, hwn fydd cyfarfod Bwrdd olaf Frances. Mae Frances wedi bod yn Gadeirydd gwych ar ARC ac yn gyfrannwr eang i Fwrdd y PSA. Rwyf wedi mwynhau gweithio gyda Frances yn fawr iawn dros y tair blynedd diwethaf ac rwy'n siŵr fy mod yn siarad ar ran y Bwrdd cyfan pan ddywedaf y bydd colled fawr ar ôl Frances. Yn ystod ein hamser yng Nghymru, byddwn yn cael cyfle i ddiolch yn briodol i Frances yn bersonol.
- 1.10 Edrychaf ymlaen at weld pawb ar 16 a 17 Gorffennaf 2024 yng Nghaerdydd.

Caroline Corby  
24 Mehefin 2024